**CABINET**
**26 MEDI 2017**

Cofnodion cyfarfod Cabinet Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Clwyd, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ddydd Mawrth, 26 Medi 2017

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd Aaron Shotton (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Chris Bithell, Christine Jones, Billy Mullin, Ian Roberts a Carolyn Thomas.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Prif Weithredwr, Y Prif Swyddog (Llywodraethu), Y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd), Y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant), Y Rheolwr Cyllid Corfforaethol, ac Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Democrataidd.

**AELODAU ERAILL YN BRESENNOL:**
Y Cynghorydd Patrick Heesom

**YMDDIHEURIADAU:**
Y Cynghorydd Derek Butler

**41. DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd y Cynghorwyr Attridge, Jones, Mullin a Shotton gysylltiad personol ag eitem rhif 8 ar yr agenda - Trefniadaeth Ysgolion.

**42. COFNODION**

Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2017 wedi eu cylchredeg gyda'r agenda.

Dywedodd y Cynghorydd Bithell mai ef ac nid y Cynghorydd Mullin oedd wedi cyflwyno'r eitem ar y Cynllun Gwasanaeth Bwyd i Gyngor Sir y Fflint 2017/18.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir yn amodol ar y newid uchod.

Dywedodd y Cynghorydd Shotton y byddai eitem rhif 8 - Trefniadaeth Ysgolion, yn cael ei hystyried fel yr eitem gyntaf ar yr agenda.

**43. TREFNIADAETH YSGOLION**

Cyflwynodd y Cynghorydd Roberts yr adroddiad am Drefniadaeth Ysgolion a oedd yn amlinellu amodau a oedd ynghlwm wrth fenter ariannu a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru (LlC) i hyrwyddo arloesi a chodi safonau mewn ysgolion bach a gwledig. Amlygwyd manylion cais y Cyngor am gyllid ar gyfer ysgolion bach a gwledig yn Sir y Fflint yn yr adroddiad.

Yn yr adroddiad hefyd cafwyd manylion y datblygiadau positif yn y gwaith o greu ffederasiynau ysgol newydd yn rhwydwaith ysgolion y Cyngor.

Byddai'r cyllid ar gyfer ysgolion bach a gwledig yn cael ei ddefnyddio i hwyluso ac annog arloesi a newid a fyddai o fudd i'r ysgolion hynny, eu disgyblion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.  Prif ddibenion y cyllid grant oedd:

- Annog arloesi;
- Cefnogi mwy o waith ysgol i ysgol;
- Darparu cymorth gweinyddol ychwanegol mewn ysgolion ble roedd gan y pennaeth ymrwymiad addysgu arwyddocaol o 10% o'r amserlen o leiaf; a
- Chynyddu defnydd y gymuned o adeiladau'r ysgol boed hynny at ddibenion addysgol neu anaddysgol.

Wrth sôn am gynnydd ffederasiynau ysgol, esboniodd y Cynghorydd Roberts fod gan Lywodraethwyr Ysgolion y grym i ddewis ffedereiddio o dan ddarpariaethau a gyflwynwyd yn 2010.  Tan yn ddiweddar, dim ond un enghraifft oedd wedi bod o Lywodraethwyr Sir y Fflint yn defnyddio eu grymoedd i ffedereiddio gyda ffederasiwn ffurfiol.  Cytunwyd ar ffederasiwn ffurfiol rhwng Ysgol Mornant ac Ysgol Maes Garmon yn ystod y broses cynigion statudol i gau Ysgol Mornant.   Byddai'r Cyngor yn ymdrechu i gefnogi ffederasiwn mewn achosion ble mae cyrff llywodraethu ysgolion yn cyd-gytuno.

Cytunodd Cyrff Llywodraethu Ysgol Gronant ac Ysgol Trelogan ac Ysgol y Waun ac Ysgol Gynradd Gwernymynydd i gynnal ymgynghoriad ynghylch cynnig i sefydlu ffederasiwn yn eu hysgolion/ardaloedd perthnasol. I Ysgol Gronant ac Ysgol Trelogan, byddai ffederasiwn yn cael ei weithredu'n swyddogol ar 8 Ionawr 2018.  I Ysgol y Waun ac Ysgol Gwernymynydd byddai ffederasiwn yn cael ei weithredu'n swyddogol ar 8 Chwefror 2018.  Byddai pob ffederasiwn yn cael ei reoli gan un Pennaeth Gweithredol.

Ym mis Rhagfyr 2016, comisiynodd y Cabinet ymgynghoriad ar gynigion statudol ar ddau safle, un ohonynt oedd cyfuno Ysgolion Brynffordd a Licswm i ffurfio un ysgol ar ail safle.   Yn dilyn trafodaethau gyda'r ddwy ysgol, argymhellwyd y dylid cael egwyl fer er mwyn caniatáu i swyddogion weithio gyda Chyrff Llywodraethu'r ddwy ysgol cyn i argymhelliad gael ei roi gerbron y Cabinet, a chefnogwyd yr argymhelliad hwnnw.

O ran Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Nercwys, roedd yr Awdurdod Esgobaethol wedi cynnal trafodaethau positif gyda'r Llywodraethwyr ynglŷn â'r posibilrwydd o ffurfio ffederasiwn ffurfiol gyda phartner addas ac roedd trafodaethau cynnar wedi dechrau gydag ysgol arall.  Roedd y Llywodraethwyr wedi cytuno, mewn egwyddor, cydweithio'n fwy agos ag ysgol arall a sefydlu Is-bwyllgor ar y cyd a fyddai'n cael ei gynnal yn yr hydref ble byddai ffederasiwn yn cael ei drafod.  Cefnogwyd hyn ac argymhellwyd fod mwy o amser yn cael ei roi ar gyfer trafodaethau.

Soniodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) am y camau positif a gymerwyd gan rai ysgolion i wneud ymdrech frwd i ffedereiddio.

Dywedodd y Prif Weithredwr y dylid treulio mwy o amser gyda Chyrff Llywodraethu Ysgolion Licswm a Brynffordd ac y byddai diweddariad yn cael ei ddarparu i'r Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cydnabod ymyrraeth Llywodraeth Cymru i ysgolion bach a gwledig a'r ymgynghoriad arfaethedig i newid y Cod Trefniadaeth Ysgolion;

(b) Cydnabod y cynnydd tuag at drefniadau ffedereiddio ysgolion;

(c) Cael egwyl fer i ganiatáu i swyddogion weithio gyda Chyrff Llywodraethu Ysgolion Licswm a Brynffordd; a

(d) Bod penderfyniad blaenorol y Cabinet ynghylch Ysgol Nercwys yn cael ei gynnal er mwyn caniatáu mwy o amser i'r Cyngor, yr Awdurdod Esgobaethol a Chorff Llywodraethu'r Ysgol i ddilyn opsiynau strategol ar gyfer cydlafurio a chynaliadwyedd ystâd yr ysgol.

## 44. CYNLLUN Y CYNGOR 2017-23

Cyflwynodd y Cynghorydd Shotton Gynllun y Cyngor 2017-23 a oedd wedi'i adolygu a'i ddiweddaru i adlewyrchu prif flaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer tymor 5 mlynedd y weinyddiaeth newydd.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod pob un o'r Pwyllgorau Arolygu a Chraffu wedi trafod Cynllun y Cyngor ac roedd atodiad wedi'i gynhyrchu a oedd yn rhoi manylion y newidiadau arfaethedig o'r Pwyllgorau Arolygu a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a Newid Sefydliadol, a theimlwyd fod y rhain yn ychwanegu gwerth i'r Cynllun.

Diolchodd y Cynghorydd Mullin i'r Pwyllgorau Arolygu a Chraffu am eu hymgysylltiad â'r Cynllun a'u sylwadau a oedd yn cael eu croesawu.

Soniodd y Cynghorydd Attridge am rai o'r pethau yn y Cynllun a oedd yn dibynnu ar gyllid Llywodraeth Cymru (LlC), megis Cefnogi Pobl i atal digartrefedd, er mwyn sicrhau fod targedau yn y Cynllun yn cael eu cyrraedd. Cytunodd y Cynghorydd Jones a soniodd am y ddibyniaeth ar y Gronfa Gofal Integredig i helpu pobl i aros yn eu cartrefi.

Roedd y Cynghorydd Thomas yn falch fod Twristiaeth yn cael ei gynnwys yn y Cynllun a fyddai'n cael ei gryfhau oherwydd ailstrwythuro a oedd yn digwydd ar hyn o bryd.

Ar dudalen 58, gofynnodd y Cynghorydd Bithell a oedd y Strategaeth Dreftadaeth wedi'i hanelu at y sir gyfan a chadarnhawyd ei bod. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y dylid gwneud hynny'n glir yn y Cynllun.

Canmolodd y Cynghorydd Roberts y gwaith a oedd wedi'i wneud yng Nghanol Tref y Fflint o ganlyniad i gyllid grant y loteri.

**PENDERFYNWYD:**

Ardystio Cynllun y Cyngor 2017-23 manwl cyn iddo gael ei fabwysiadu gan y Cyngor Sir i'w gyhoeddi'n derfynol ar ôl ei ddiwygio yng ngoleuni sylwadau a wnaethpwyd yn ystod y broses Arolygu a Chraffu.

## 45. ADRODDIAD CYNNYDD AM GAIS CYTUNDEB TWF ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad ar Gais Cytundeb Twf Economaidd Gogledd Cymru a oedd, ar ôl i'r Cabinet fabwysiadu *Gweledigaeth Twf i Economi Gogledd Cymru,* yn darparu manylion am y gwaith rhanbarthol a oedd yn cyd-ddigwydd â'r cytundeb datblygu ar gyfer ceisiadau twf mewn rhanbarthau dethol yn Lloegr a de Cymru.

Symudwyd gwaith ar y Strategaeth ymlaen er mwyn ei chynnwys mewn cais ffurfiol o dan y pedwar thema rhyng-gysylltiedig sef safleoedd strategol cyflogaeth a thai; twf busnes ac arloesi; seilwaith trafnidiaeth a gwasanaethau; a sgiliau, bod heb waith a diwygio cymdeithasol.

Cafodd y model llywodraethu rhanbarthol dewisedig ei nodi yn yr adroddiad sef cydbwyllgor statudol. Roedd angen trefniadau pontio ar gyfer rheoli gwleidyddol yn y cam cyntaf wrth aros i'r cydbwyllgor gael ei ffurfio. Gan hynny, cynigwyd cael cydbwyllgor 'cysgodol' heb unrhyw bwerau i wneud penderfyniadau.

Croesawodd y Cynghorydd Shotton yr adroddiad a soniodd am y momentwm cynyddol yng nghynghorau gogledd Cymru i wneud y Cais Cytundeb Twf yn llwyddiant. Ar ôl i'r holl awdurdodau partner gymeradwyo adroddiadau tebyg am gynnwys y Cais Cytundeb Twf, byddai cyfarfodydd yn dechrau o fis Hydref ymlaen.

Cytunodd y Cynghorydd Attridge a dywedodd fod hyn yn enghraifft dda arall o weithio ar y cyd.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Pwyllgor Arolygu a Chraffu Cymuned a Menter wedi cael cyfarfod briffio preifat am y pwnc hwn a'i fod wedi cael croeso mawr.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod cynnydd yn natblygiad y Cais Cytundeb Twf cystadleuol ar gyfer y rhanbarth yn cael ei nodi a'i gefnogi;

(b) Bod y model llywodraethu dewisedig sef Cydbwyllgor statudol i ddatblygu ymhellach yn cael ei gefnogi mewn egwyddor gydag adroddiad llawn am gyfansoddiad a chylch gorchwyl a agymhellir, wedi'i ategu gan Gytundeb Rhwng Awdurdodau, yn dilyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn;

(c) Bod Arweinydd y Cyngor yn cael awdurdod i weithredu fel aelod o Gydbwyllgor 'cysgodol' am gyfnod dros dro;

(d) Bod Arweinydd y Cyngor, fel un o Arweinwyr y chwe Chyngor partner a gynrychiolir ar y Cydbwyllgor Cysgodol, yn cael awdurdod i ddechrau trafodaethau cam cyntaf ar y cyd â Llywodraethau ynglŷn â maint ac amlinelliad o gynnwys y Cais Cytundeb Twf, gan nodi na fydd unrhyw ymrwymiadau ariannol nac eraill yn cael eu dechrau yn y cyfnod trafod dechreuol hwn; a

(e) Bod y Prif Weithredwr yn cael awdurdod dirprwyedig i ganiatáu cyfraniad refeniw dechreuol o wariant 2017/18 ar gyfer datblygiad manwl y Cais Cytundeb Twf hyd at uchafswm o £50,000.

## 46. STRATEGAETH DDEWISEDIG AR GYFER YMGYNGHORI AR Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Bithell yr adroddiad am Strategaeth Ddewisedig ar gyfer Ymgynghori ar y Cynllun Datblygu Lleol.

Roedd gwaith wedi'i wneud yn derfynol ar y CDLl a oedd bellach yn arwain at Strategaeth Ddewisedig. Roedd yr holl waith ar y Cynllun wedi'i arolygu gan Grŵp Strategaeth Cynllunio'r Cyngor (GSC) a oedd wedi ystyried a chytuno ar bob cam a hefyd wedi ystyried adborth a dderbyniwyd o'r ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu amrywiol. Roedd y consensws o'r adborth wedi cynorthwyo'r GSC i gytuno ar gynnwys y Strategaeth Ddewisedig i'w hargymell i'r Cyngor i'w chymeradwyo a chynnal ymgynghoriad ffurfiol yn ei chylch.

Ychwanegodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) fod cyfarfodydd briffio am y Strategaeth wedi'u cynnal yn ystod mis Gorffennaf ar gyfer Aelodau a Chynghorau Tref a Chymuned cyn i'r ymgynghoriad arni ddechrau. Roedd llawer wedi mynychu'r sesiynau ac roedd yr adborth cyffredinol yn bositif. Esboniodd nad oedd y Strategaeth yn seiliedig ar y dull gwaith traddodiadol; roedd yn cael ei arwain gan gyflogaeth. Dyma'r dull a fabwysiadwyd gan Gynghorau Môn a Gwynedd hefyd a oedd wedi paratoi CDLl ar y cyd a oedd yn 'gadarn' yn gynharach yn y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod Strategaeth Ddewisedig y Cynllun Datblygu Lleol sydd ynghlwm wrth yr adroddiad yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol;

(b) Bod swyddogion yn cael awdurdod dirprwyedig i barhau i goethi a chwblhau'r ddogfen Strategaeth Ddewisedig a gwybodaeth gefnogol yn barod ar gyfer ymgynghoriad; a

(c) Bod Strategaeth Ddewisedig y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol yn ystod mis Hydref 2017.

## 47. CYNLLUN GWEITHREDU'R STRATEGAETH GAFFAEL

Cyflwynodd y Cynghorydd Mullin Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Gaffael a oedd wedi'i baratoi i ddangos sut y byddai canlyniadau'r Strategaeth yn cael eu cyflawni. Roedd y cynllun gweithredu hefyd yn cynnwys mesurau a fyddai'n cael eu defnyddio i olrhain cynnydd.

Esboniodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod y Cynllun Gweithredu wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Arolygu a Chraffu Adnoddau Corfforaethol diweddar a'i fod wedi derbyn cefnogaeth. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Attridge, esboniodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod posibilrwydd o gydweithio â mwy o Gynghorau. Roedd y Strategaeth wedi bod yn waith ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych gan eu bod wedi cynnal y Tîm Caffael ar gyfer y ddau awdurdod.

Croesawodd y Cynghorydd Shotton y categorïau ar gyfer y camau gweithredu a gynlluniwyd, yn arbennig y rheiny ar fuddion cymunedol. Esboniodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar y trefniadau ar gyfer buddion cymunedol a fyddai'n dangos llawlyfr a fyddai ar gael i gontractwyr, yn esbonio beth oedd buddion cymunedol priodol ar gyfer gwahanol fathau o gontractau.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y cynllun gweithredu a'r mesur a fydd yn cael ei adrodd yn gyhoeddus yn cael ei gymeradwyo.

## 48. CYNNIG GOFAL PLANT AM DDIM

Cyflwynodd y Cynghorydd Jones yr adroddiad Cynnig Gofal Plant Am Ddim ac esboniodd mai nod y cynnig yw lliniaru effeithiau tlodi ar ganlyniadau i blant a lleihau anghydraddoldeb.

Erbyn diwedd Cynulliad presennol Cymru yn 2021, bydd y Cynnig Gofal Plant yn darparu 30 awr o ofal plant ac addysg gynnar i blant 3 a 4 oed am 48 wythnos y flwyddyn i rieni sy'n gweithio a byddai'n cael ei ariannu gan y llywodraeth. Hyd yma, roedd 152 o geisiadau wedi cael eu derbyn trwy broses ymgeisio awtomataidd a oedd yn galluogi rhieni i gofrestru ar-lein a dethol darparwyr gofal plant cofrestredig eu hunain o'r 122 o ddarparwyr cofrestredig, er mwyn gwneud y mwyaf o'r grant i deuluoedd Sir y Fflint.

Ychwanegodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) bod y broses wedi bod yn un heriol ond boddhaol gyda chynnydd sylweddol yn cael ei wneud. Amlinellodd yr adroddiad risgiau'r prosiect, megis dim digon o leoedd gofal plant i 748 o blant; dim digon o rieni yn cofrestru i gyflawni'r targed; a darpariaeth yn ystod gwyliau.

Canmolodd y Prif Swyddog (Addysg) y Tîm Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd a'r Tîm Hawliau Cynnar a oedd wedi cyflawni'r gwaith gofynnol ar y prosiect hwn. Roedd adborth Llywodraeth Cymru (LlC) wedi bod yn bositif, gan nodi fod Sir y Fflint wedi goresgyn rhai o'r heriau yr oedd awdurdodau eraill wedi methu â'i wneud. Adleisiwyd y sylwadau gan y Cynghorydd Jones.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Attridge, esboniodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) nad oedd unrhyw ymrwymiad ariannol yn ofynnol gan y Cyngor a bod y cynllun yn niwtral o ran cost.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn adroddiad cyfredol y Cyngor ynglŷn â gweithrediad cynnar y Cynnig Gofal Plant a chydnabod y cynnydd a wnaethpwyd.

## 49. ADOLYGU'R POLISI CYNNAL YN Y GAEAF

Cyflwynodd y Cynghorydd Thomas yr adroddiad Polisi Cynnal yn y Gaeaf a oedd yn ddiweddariad o'r Polisi Cynnal yn y Gaeaf presennol. Roedd hefyd yn cadarnhau y gofynion deddfwriaethol i ddarparu gwasanaeth tebyg, dyraniad cyllidebol

a gwir wariant y Cyngor wrth gydymffurfio â’r polisi presennol a darparu’r gwasanaeth yn ystod y 4 blynedd ddiwethaf.

Ychwanegodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) mai arfer da oedd adolygu’r Polisi yn rheolaidd a bod yr adroddiad yn amlinellu’r newidiadau a gynhwysir yn y fersiwn mwyaf diweddar o’r Polisi Cynnal yn y Gaeaf. Hefyd, amlinellodd yr adroddiad ymateb y Sir i achosion eraill o dywydd gwael, fel llifogydd a gwyntoedd cryfion, a gofynnwyd am gymeradwyaeth i’r Polisi Dosbarthu Bagiau Tywod rhanbarthol a fyddai’n cael ei weithredu yn ystod cyfnodau o law trwm neu achosion eraill o lifogydd.

Croesawodd y Cynghorydd Roberts y meini prawf ar gyfer cyfyngiadau traffig ar gyfer A548 Pont Sir y Fflint a gofynnodd pa arwyddion a fyddai’n cael eu defnyddio. Esboniodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) bod adolygiad yn cael ei gynnal o holl arwyddion Sir y Fflint ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i Aelodau'r Cabinet faes o law.

Roedd y Cynghorydd Shotton yn falch o nodi manylion y cerbydau graeanu newydd ar gyfer 2017/18 a oedd yn cynnwys meddalwedd Schmidt Autologic. Byddai hyn yn cynorthwyo’r gyrwyr i weithredu gan sicrhau fod y swm cywir o halen yn cael ei wasgaru ar y rhwydwaith. Roedd hefyd yn croesawu’r Polisi Dosbarthu Bagiau Tywod newydd.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo’r Polisi Cynnal yn y Gaeaf diwygiedig (2017-19) a’r gweithdrefnau a gynhwysir ar gyfer darparu'r gwasanaeth cynnal yn y gaeaf; a

(b) Cymeradwyo manylion ymateb y Sir i achosion o dywydd anffafriol a'r Polisi Dosbarthu Bagiau Tywod newydd.

## 50. ADOLYGU POLISI PARCIO I BRESWYLWYR Y CYNGOR

Cyflwynodd y Cynghorydd Thomas adroddiad am Adolygiad o Bolisi Parcio Preswylwyr y Cyngor. Os oes angen i breswylwyr barcio ar y stryd gan nad oes lleoedd ar gael i barcio oddi ar y stryd, esboniodd y gellid gweithredu Cynllun Parcio i Breswylwyr er mwyn caniatáu i breswylwyr barcio mewn lleoedd wedi'u marcio y tu allan i'w cartrefi trwy arddangos hawlen ddilys.

Cyflwynwyd adroddiad i’r Pwyllgor Arolygu a Chraffu'r Amgylchedd ym mis Mehefin ac argymhellwyd y dylid cynyddu lefel y gefnogaeth leol sy’n ofynnol i ddod â chynllun i rym o 50% i 75%. Nid oedd y ffigwr uwch wedi’i gynnwys yn y polisi diwygiedig oherwydd credwyd y byddai'n eithriadol o annhebygol y byddai unrhyw gynnig yn derbyn y lefel honno o ymateb a byddai hynny'n arwain at rwystro unrhyw gynlluniau rhag symud ymlaen yn y dyfodol. Mewn Cynghorau eraill, 50% oedd y lefel gymeradwyo ble roedd opsiynau Parcio i Breswylwyr yn cael eu cynnig i’r gymuned.

Esboniodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) bod Matrics Asesu Cynllun Parcio i Breswylwyr yn cael ei gynnig ac y byddai’n blaenoriaethu cynlluniau a geisiwyd ar gyfer ystyriaeth. Byddai hwn yn sgorio agweddau perthnasol o’r polisi yn erbyn yr angen am y cynllun ac roedd yn gydnaws â Matrics Asesu’r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig ar gyfer blaenoriaethu cyfyngiadau traffig. Oherwydd

y cynnydd mewn ceisiadau am Gynlluniau Parcio i Breswylwyr a chostau adnoddau staff, argymhellwyd y dylid dilyn y matrics ac y dylai'r tri Cynllun Parcio i Breswylwyr sy'n cael y sgoriau uchaf gael eu gweithredu ym mhob blwyddyn ariannol. Roedd hynny'n fforddiadwy o fewn y gyllideb bresennol.

Gofynnodd y Cynghorydd Attridge a fyddai cynlluniau ond yn cael eu gweithredu os ydynt yn cael cefnogaeth y Cyngor Tref neu Gymuned. Esboniodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) y byddai angen cefnogaeth y Cyngor Tref neu Gymuned ar unrhyw gynllun ac na fyddai cynlluniau yn cael eu gweithredu heb y gefnogaeth honno.

Dywedodd y Cynghorwyr Bithell a Roberts eu bod yn cefnogi'r syniad o gadw canran o 50% gan y byddai ei chodi i 75% yn anghyraeddadwy.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r newidiadau i'r Polisi Parcio i Breswylwyr presennol; a

(b) Cymeradwyo Matrics Asesu'r Cynllun Parcio i Breswylwyr a ddefnyddir i flaenoriaethu ceisiadau yn y dyfodol am gymeradwyo cynlluniau Parcio i Breswylwyr.

**51 ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

Croesawodd y Cynghorydd Shotton Mr. Paul Goodlad o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod.

Esboniodd Mr Goodlad fod yr Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) yn crynhoi'r archwiliad a'r gwaith rheoleiddio a oedd wedi'i gwblhau yn y Cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ers i'r adroddiad diwethaf gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2016. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn y fformat newydd.

Yn gyffredinol roedd Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi dod i gasgliad positif sef *"Mae'r Cyngor yn cyflawni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus*" ac nid oedd unrhyw argymhellion ffurfiol wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn.

Yr Ymateb Gweithredol, a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad, oedd ymateb y Cyngor a statws cynnydd presennol ar y meysydd a nodwyd fel cynigion gwirfoddol ar gyfer gwelliant.

Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Arolygu a Chraffu Adnoddau Corfforaethol diweddar ac esboniwyd nad oedd unrhyw argymhellion ffurfiol ond roedd y Cyngor am ymateb ar y cynigion gwirfoddol am welliant. Soniodd am yr arsylwadau positif yn yr adroddiad, yn arbennig ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu da.

Yn y Pwyllgor Arolygu a Chraffu Adnoddau Corfforaethol trafodwyd cael mwy o fewnbwn gan Bwyllgorau Craffu mewn rhai meysydd. Eglurodd y Prif Weithredwr, ar eitemau cyllideb, bod y Pwyllgorau Arolygu a Chraffu yn gallu olrhain cynnydd y cafodd Cadeiryddion y Pwyllgorau hynny eu hannog i nodi meysydd o ddiddordeb iddynt olrhain. Soniodd y Cynghorydd Attridge am y diffyg galwadau gan Bwyllgorau Arolygu a Chraffu ynghylch penderfyniadau'r Cabinet a oedd yn arwydd o effeithiolrwydd y

broses cyn craffu a ddilynir gan y Cyngor, gan gynnwys adrodd unrhyw sylwadau penodol i'r Cabinet.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Bithell ynglŷn â methu gwarantu nifer y ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd, esboniodd Mr. Goodlad nad canran Sir y Fflint o 85% o dargedau wedi'u cyrraedd oedd yr isaf yng Nghymru ond bod rhai Cynghorau wedi cyrraedd canran uwch. Dywedodd fod ganddynt rywfaint o le i 'gyfrifo creadigol' a hefyd sicrhau bod arbedion yn cael eu gweithredu cyn gynted ag y cytunwyd arnynt i helpu i gyflawni arbedion uwch.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn Adroddiad Gwella Blynyddol 2016/17 a chyflwyno'r Ymateb Gweithredol i'r Adroddiad Gwella Blynyddol i'r Cyngor Sir i'w ardystio.

## 52. ADRODDIADAU ASTUDIAETH SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cyflwynodd Mr. Paul Goodlad yr eitem ac esboniodd fod Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) wedi cwblhau tri adolygiad i'r Cyngor yn ddiweddar fel rhan o'u gwaith archwilio perfformiad. Sef:

- Asesiad Corfforaethol dilynol;
- Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau i wasanaethau; ac
- Effeithiolrwydd rhaglen arbedion y Cyngor.

Soniodd yn arbennig am Effeithiolrwydd rhaglen arbedion y Cyngor a oedd heb ei ymchwilio'n fanwl yn y gorffennol ac roedd yn falch o ddweud fod y gwaith cynllunio a monitro ar gyfer arbedion yn effeithiol a chadarn. Roedd rhai meysydd lle gallai'r Cyngor barhau i gryfhau ei ddull gwaith ond nid oeddent yn feysydd a oedd yn peri pryder.

Croesawodd y Cynghorydd Attridge yr adroddiad a sylwadau Mr. Goodlad. Roedd yn falch o'r sylwadau a wnaethpwyd mewn meysydd yn y Cyngor a oedd wedi derbyn beirniadaeth yn y gorffennol. Diolchodd i'r tîm cyllid a'r Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gyllid am eu gwaith i sicrhau adroddiad positif.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr Ymateb Gweithredol i adolygiadau Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu hardystio.

## 53. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2017/18 (MIS 4)

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw 2017/18 (Mis 4) a oedd yn darparu'r sefyllfa ddiweddaraf o ran monitro'r gyllideb refeniw yn 2017/18 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai. Hwn oedd yr adroddiad monitro llawn cyntaf ar gyfer y flwyddyn ac roedd yn cyflwyno'r sefyllfa yn seiliedig ar incwm a gwariant gwirioneddol. Roedd yr adroddiad yn rhagamcanu beth fyddai sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol pe bai popeth yn aros yn gyfartal.

Y rhagamcan o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, heb wneud unrhyw beth i ostwng pwysau costau a gwella'r arenillion ar gynllunio arbedion, oedd:

**Cronfa'r Cyngor**

- Rhagwelid y bydd gwariant net yn ystod y flwyddyn £1.256 miliwn yn uwch na'r gyllideb; a
- Rhagamcanir y bydd balans y gronfa hapddigwyddiad ar 31 Mawrth 2018 yn £3.87miliwn.

**Cyfrif Refeniw Tai**

- Rhagwelid y bydd gwariant net yn ystod y flwyddyn £0.026 miliwn yn uwch na'r gyllideb; a
- Rhagamcenir y bydd y balans terfynol ar 31 Mawrth 2018 yn £1.090m.

Roedd yr adroddiad yn cwmpasu'r rhagamcanion diweddaraf yn ystod y flwyddyn fesul portffolio; olrhain risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn; risgiau eraill sy'n cael eu holrhain; risgiau newydd sy'n dod i'r amlwg yn 2017/18; chwyddiant; a chronfeydd wrth gefn a balansau.

Ar y Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth, esboniodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod y gorwariant rhagamcanol o £1.910m wedi cynnwys yn rhannol materoli rhywfaint o'r risgiau arwyddocaol a oedd yn hysbys pan osodwyd cyllideb 2017/18 gan y Cyngor gan gynnwys costau ychwanegol o £0.675m ar ôl ail-gaffael er mwyn cwmpasu amryw o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a gostyngiad o £0.111m a gadarnhawyd yn Grant Sengl yr Amgylchedd. Rhestrwyd amrywiadau pellach yn yr adroddiad ac roedd y sefyllfa net ar y gorwariant rhagamcanol yn ddiffyg gweithredol net o £0.569m. Roedd amrywiadau mawr yn effeithio ar y diffyg gweithredol hwnnw hefyd yn cael eu nodi yn yr adroddiad ac roedd gwaith ar y gweill i asesu unrhyw effaith posibl ar yr amrywiadau hynny yn y flwyddyn ar y rhagolwg Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2018/19.

Yn dilyn adolygiad o wasanaethau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, credwyd y byddai'n briodol ceisio cymeradwyaeth ar gyfer adlinio'r gyllideb rhwng rhai meysydd Pobl Hŷn, a oedd yn adlewyrchu tanwariant ar hyn o bryd, a Dysgu ac Anableddau, lle roedd y galw yn uchel.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r adroddiad cyffredinol a'r swm wrth gefn a ragamcanwyd ar gyfer Cronfa'r Cyngor ar 31 Mawrth 2018;

(b) Nodi'r lefel derfynol o falansau a ragwelwyd yn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT);

(c) Cytuno ar drosglwyddiad cyllideb yn y Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn adlinio'r gyllideb i ddiwallu anghenion y gwasanaeth; a

(d) Cymeradwyo dyraniad o £0.052m o'r gronfa hapddigwyddiad er mwyn darparu cefnogaeth ariannol i gwmpasu pwysau disgwyliedig ar y gyllideb yn ystod blwyddyn 2017-18 o ran strwythurau datblygu economaidd rhanbarthol a chefnogaeth i ddigwyddiadau.

**54. MONITRO RHAGLEN GYFALAF 2017/18 (MIS 4)**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yr adroddiad Monitro Rhaglen Gyfalaf 2017/18 (Mis 4)

Dangosodd Tabl 1 yn yr adroddiad sut oedd y rhaglen wedi newid yn ystod 2017/18 ac roedd mwy o wybodaeth fanwl yn ymwneud â phob Portffolio ynghlwm wrth yr adroddiad.

Nodwyd ceisiadau i ddwyn ymlaen yn yr adroddiad yn ogystal â dyraniad ychwanegol oherwydd tirlithriad ar y B5101 yn Ffrith.

Yr alldro dros ben terfynol o 2016/17 oedd £4.688 a dyranwyd £3.567 o hwnnw i gynlluniau yn 2017/18. Dangosodd cynlluniau a gyflwynwyd ar gyfer blynyddoedd 2017/18 - 2019/20 ddiffyg posibl o £3.187m mewn cyllid. Roedd cyfanswm derbynebau gwirioneddol yn ystod y flwyddyn ym Mis 4 yn £1.499m.

Er bod pob cyllid mewn lle ar gyfer cynlluniau 2017/18, yn gyffredinol roedd diffyg o £0.566m yn y rhaglen gyfan (2017/18 - 2019/20) o hyd. Roedd yr opsiynau ar gyfer ariannu hyn yn cael eu cadw'n hyblyg ac yn cynnwys cyfuniad o dderbynebau cyfalaf yn y dyfodol, grantiau amgen, benthyca darbodus neu gyflwyno cynlluniau yn raddol dros sawl blwyddyn. Byddai hyn yn cael ei fonitro yn agos a byddai diweddariadau yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod yr adroddiad cyffredinol yn cael ei gymeradwyo; a

(b) Bod yr addasiadau dwyn ymlaen yn cael eu cymeradwyo; a

(c) Bod y dyraniad ychwanegol yn cael ei gymeradwyo.

**55. ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2016/17**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yr Adroddiad Blynyddol Rheoli Trysorlys 2016/17 a fyddai'n cael ei argymell i'r Cyngor Sir i'w fabwysiadu yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Rheoli Trysorlys ar gyfer 2016/17 a'i argymell i'r Cyngor Sir i'w fabwysiadu.

**56. DILEU ARDRETHI BUSNES**

Cyflwynodd y Cynghorydd Mullin yr adroddiad Dileu Ardrethi Busnes a oedd yn darparu manylion dwy ddyled ardrethi busnes a ystyriwyd yn anadferadwy i Gwmnïau Atebolrwydd Cyfyngedig a oedd wedi rhoi'r gorau i fasnachu ac a oedd naill ai wedi mynd i ddwylo gweinyddwyr neu wedi'u diddymu.

Nid oedd unrhyw asedau ac nid oedd yn bosibl bellach adfer y dyledion ardrethi busnes yn llwyddiannus ac roedd angen diddymu'r dyledion:

- Lancashire Fuels 4U Limited (wedi'i ddiddymu) - £73,932.05; a
- Novo Drinks Limited (yn nwylo gweinyddwyr) - £39,415.39.

Canmolodd y Cynghorydd Bithell y swyddogion am eu hymdrechion i adfer y dyledion.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo diddymu dyledion ardrethi busnes sy'n gyfanswm o £73,932.05 ar gyfer Lancashire Fuels 4U a £39,415.39 ar gyfer Novo Drinks Ltd.

## 57. TREFNIADAU GORFODAETH AMGYLCHEDDOL A PHARCIO CEIR DIWYGIEDIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Thomas yr adroddiad Trefniadau Gorfodi Amgylcheddol a Meysydd Parcio Diwygiedig a adolygodd yr opsiwn orau ar gyfer symud y gwasanaeth ymlaen, gan gymryd i ystyriaeth yr amrywiaeth o weithgareddau gorfodi a oedd yn ofynnol.

Argymhellwyd y dylid ymgysylltu â Phartner Busnes i ymgymryd â gorfodi troseddau amgylcheddol lefel isel, rheoli cŵn a throseddau parcio ceir ar ran y Cyngor. Byddai gorfodi tipio anghyfreithlon a cherbydau wedi eu gadael yn aros gyda'r Cyngor ynghyd â gorfodi gwastraff ychwanegol biniau du ar olwynion."

Soniodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) am y broses apeliadau ble mae'r Cyngor yn penodi uwch swyddog i adolygu unrhyw apeliadau mewn perthynas â dosbarthu Rhybuddion Cosb Benodedig / Rhybuddion Talu Cosb i sicrhau eu bod yn cael eu dosbarthu'n briodol. Byddai ymddygiad y swyddogion a gyflogir gan y contractwr yn cael ei ymchwilio'n drylwyr gan swyddog penodedig y Cyngor.

Ym mis Gorffennaf 2017 cymeradwyodd y Cabinet adroddiad a oedd yn cyflwyno newidiadau i wasanaeth casglu gwastraff a deunyddiau ailgylchu gan gynnwys ymrwymiad i orfodi'r broblem o osod gwastraff wrth ochr biniau du ar olwynion sy'n aros i gael eu casglu. Dim ond lleiafrif o breswylwyr sy'n gosod gwastraff ochrol ac yn aml nid oedd y rheiny a oedd yn gwneud yn ailgylchu. Rhoddwyd manylion y weithdrefn orfodi ar gyfer gwastraff ochrol ynghlwm wrth yr adroddiad, ac argymhellwyd Opsiwn 1 yn rhif (1).

Mewn ymateb i sylw gan y Cynghorydd Attridge, dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) yr eid i'r afael ag unrhyw broblemau pan fyddai'r contract yn cael ei roi at ei gilydd. Esboniodd y byddai cynlluniau gorfodi wythnosol yn cael eu cytuno o flaen llaw a byddent yn targedu ardaloedd a amlygwyd gan Aelodau lleol. Roedd dull talu staff y partner busnes allan o reolaeth y Cyngor ond roedd y darparwr presennol wedi datgan nad oedd unrhyw gyswllt uniongyrchol rhwng perfformiad a thâl.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo caffael un Partner Busnes ar gytundeb tymor byr o 2 flynedd (gyda dewis i ymestyn ar sail perfformiad) i gyflawni gorfodaeth troseddau amgylcheddol lefel isel, rheoli cŵn a throseddau parcio ceir ar ran y Cyngor; a

(b) Bod Opsiwn 1 yn cael ei argymell fel y dull dewisedig o reoli gorfodi gwastraff ochrol.

## 58. CYNLLUN DYLETSWYDD BIOAMRYWIAETH A PHOLISI CYNALIADWYEDD

Cyflwynodd y Cynghorydd Thomas y Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth a'r Polisi Cynaliadwyedd a oedd wedi'u cynhyrchu mewn ymateb i'r dyletswydd gwella bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Roedd y Ddeddf yn mynnu fod rhaid i Awdurdodau Lleol geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled a'i fod yn cyd-fynd ag ymarfer eu swyddogaethau yn briodol ac wrth wneud hynny, rhaid hyrwyddo gwytnwch ecosystemau.

Roedd gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i weithredu cynaliadwyedd ac arwain drwy esiampl o ran diogelu a gwella ein hamgylchedd naturiol. Byddai Polisi'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn gosod allan dull gwaith Sir y Fflint i gyflawni'r her.

Ychwanegodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) fod hyn yn gysylltiedig â blaenoriaeth yng Nghynllun 'Cyngor Gwyrdd' y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cytuno ar y weledigaeth, yr amcanion a'r camau gweithredu a osodir allan yn y Cynllun Cyflawni Dyletswydd Bioamrywiaeth; ac

(b) Ardystio Polisi'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

## 59. CANLYNIADAU'R YMGYNGHORIAD YNGHYLCH AMODAU ARFAETHEDIG GORCHYMYN GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS RHEOLI CŴN DRAFFT

Cyflwynodd y Cynghorydd Thomas yr adroddiad a oedd yn cynnig dau opsiwn ar gyfer mabwysiadu Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn. Nodwyd yr opsiynau yn yr adroddiad yn ogystal â'r ymatebion yn yr ymgynghoriad.

O ran gwahardd cŵn ar gaeau chwaraeon wedi'u marcio, gwnaeth 21 o'r atebwyr sylwadau cefnogol, gwnaeth 24 o atebwyr sylwadau'n cwestiynau'r gwaharddiad a holodd 31 o atebwyr a fyddai darpariaethau eraill yn cael eu gwneud er mwyn ymarfer cŵn yn sgîl y bwriad i wneud rhai ardaloedd yn waharddedig. Roedd yr RSPCA a'r Kennel Club yn credu y dylid gadael i gŵn fynd ar gaeau chwaraeon wedi'u marcio.

Yn y Pwyllgor Arolygu a Chraffu'r Amgylchedd ar 19 Medi, pleidleisiodd Aelodau o blaid Opsiwn 2 a fyddai'n gweld cyfnod ymgynghori pellach ynglŷn â gwahardd cŵn ar gaeau chwaraeon wedi'u marcio. Roedd argymhelliad arall wedi'i gyflwyno sef y gellid ymarfer cŵn ar dennyn o amgylch perimedr y caeau chwaraeon wedi'u marcio.

Roedd yr Aelod Cabinet yn cefnogi Opsiwn 2 ond byddai angen i Gynghorau Tref a Chymuned gynnal unrhyw ymgynghoriad pellach.

Siaradodd y Cynghorydd Attridge o blaid gwahardd cŵn o gaeau chwaraeon wedi'u marcio, gan roi enghreifftiau o gemau chwaraeon yn gorfod cael eu gohirio er mwyn glanhau baw cŵn. Dywedodd nad oedd caniatáu i gŵn fynd ar gaeau chwaraeon wedi'u marcio yn dderbyniol i iechyd a lles preswylwyr Sir y Fflint. Cytunodd y Cynghorydd Mullin â barn y Cynghorydd Attridge a soniodd fod problemau tebyg yn codi ar y cae chwaraeon wedi'i farcio ym Mrychdyn.

Roedd y Cynghorydd Shotton hefyd yn cefnogi barn Cynghorwyr Attridge a Mullin a chefnogodd Opsiwn 1 yr argymhelliad. Fodd bynnag, dywedodd fod angen i'r Cyngor fod yn ystyriol o rai safbwyntiau gan gymunedau yn dilyn yr ymgynghoriad. Yn dilyn cwestiwn, esboniodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) y byddai'r Gorchymyn yn diffinio'r ardaloedd gwaharddedig. Os nad oes unrhyw leoliad arall i ymarfer cŵn yn yr ardal, byddai dewisiadau amgen yn cael eu ceisio. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y byddai swyddogion yn gweithio gyda'r cymunedau hynny a nododd mai caeau chwaraeon wedi'u marcio oedd yr unig leoliadau i gerdded cŵn er mwyn chwilio am fannau amwynder ychwanegol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, bod Gorchymyn Gwarchod Mannau Agored yn cael ei wneud i gwmpasu rheoli cŵn a baw cŵn yn Sir y Fflint, gyda'r amodau canlynol:

i. Cael gwared ar wastraff eu ci o'r holl fannau cyhoeddus yn Sir y Fflint;
ii. Peidio â mynd â chŵn neu adael i gŵn fynd neu aros ar y tiroedd canlynol:
   a. Pob rhan o diroedd ysgolion;
   b. Ardaloedd chwarae mewn ardaloedd hamdden ffurfiol gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i lawntiau bowlio a chyrtiau tennis;
   c. Ardaloedd chwarae plant caeedig â ffens.

iii. Cadw eu cŵn ar dennyn mewn Mynwentydd;
iv. Sicrhau bod ganddynt fodd priodol o godi gwastraff eu ci o bob man cyhoeddus yn Sir y Fflint;
v. Rhoi eu ci ar dennyn, pan fydd swyddog awdurdodedig yn gofyn iddynt wneud hynny, os yw'r ci yn rhydd ac yn niwsans neu'n poeni unrhyw unigolyn, aderyn neu anifail arall; a
vi. Bod swyddogion yn gweithio gyda'r cymunedau hynny a nododd mai caeau chwaraeon wedi'u marcio oedd yr unig leoliadau i gerdded cŵn er mwyn chwilio am fannau amwynder ychwanegol.

(b) Cytuno bod y Gorchymyn Gwarchod Mannau Agored sy'n cwmpasu rheoli cŵn a baw cŵn yn dechrau ar 20 Hydref, yn dilyn cyfnod rhybudd a chyhoeddusrwydd y Gorchymyn sydd ar ddod.

## 60. YMARFER PWERAU DIRPRWYEDIG

Cyflwynwyd eitem gwybodaeth am y camau gweithredu a gymerwyd o dan bwerau dirprwyedig. Mae'r camau gweithredu wedi eu nodi isod:-

Newid Sefydliadol

- **Gwerthu Byngalo Aberllanerch, Ffordd y Bryn, Alltami, Yr Wyddgrug trwy Dendr Anffurfiol**
  Gwerthu daliad amaethyddol gwag sy'n cael budd o ganiatâd cynllunio i newid yr annedd bresennol yn uned fwy.

- **Gwerthu Tir Ger 20 Bernsdale Close, Sandycroft**
  Mae'r tir yn cynnwys ardal o dir a gedwir yn y Cyfrif Refeniw Tai. Bydd gwerthu yn tynnu cyfrifoldeb atgyweirio sylweddol oddi ar y Cyngor.

- **Gwerthu gardd wrth ochr 8 Maes Alaw, Y Fflint**
  Pan brynodd y perchennog yr eiddo drwy'r cynllun Hawl i Brynu, roedd yr ardd ochr wedi'i heithrio.

- **Gwerthu Tir Ger Grantec Ltd, Ystad Ddiwydiannol Spencer, Bwcle**
  Roedd Grantec wedi llechfeddiannu'r tir uchod ac mae bellach wedi cytuno ei brynu.

- **Gwerthu Tir Ger Bryn Abbey, Strand Lane, Treffynnon**
  Mae'r darn bach hwn o dir (oddeutu 25 metr sgwâr) yn ffurfio rhan o Ysgol Treffynnon ar hyn o bryd ac mae'n cael ei werthu er mwyn caniatáu mynediad i berchnogion adeilad gerllaw i'w galluogi i gynnal a chadw cefn yr adeilad.

- **Codi Prisiau Prydau Ysgol**
  Codi prisiau prydau mewn ysgolion fel eu bod yn gydnaws â phrisiau darparwyr prydau ysgol eraill ledled Cymru.

- **Gwasanaethau Hamdden, Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd - Cadarnhau Amodau i Alluogi Trosglwyddiad Gwasanaethau i, a Chwblhau Lesoedd gydag, Aura Leisure and Libraries Ltd, sef y Gymdeithas Mantais Gymunedol newydd.**
  Mae hyn yn cwmpasu'r gwaith a gwblhawyd i'n galluogi i gadarnhau amodau (a gytunwyd yn y Cabinet ar 13 Rhagfyr 2016) er mwyn galluogi trosglwyddiad gwasanaethau i, ac arwyddo lesoedd gydag, Aura Leisure and Libraries Ltd., sef y Gymdeithas Mantais Gymunedol newydd o 1 Medi 2017.

Cymuned a Menter

- **Ardrethi Busnes – Cais am Ryddhad Caledi**
  Mae Adran 49 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn rhoi hawl i'r Cyngor ddefnyddio ei ddoethineb i ostwng neu ddileu ardrethi busnes os yw'n fodlon y byddai'r talwr ardrethi yn wynebu caledi pe na bai'n gwneud hynny ac os yw'n rhesymol iddo wneud hynny o ystyried buddiannau trethdalwyr y cyngor.

  Mae cais a dderbyniwyd gan Gymdeithas Gymunedol Bagillt wedi'i wrthod ar y sail fod gan y ganolfan gymuned incwm a chyfalaf digonol i dalu eu hardrethi busnes o 20%.

- **Ardrethi Busnes – Cais am Ryddhad Caledi**
  Mae Adran 49 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn rhoi hawl i'r Cyngor ddefnyddio ei ddoethineb i ostwng neu ddileu ardrethi busnes os yw'n fodlon y

byddai'r talwr ardrethi yn wynebu caledi pe na bai'n gwneud hynny ac os yw'n rhesymol iddo wneud hynny o ystyried buddiannau trethdalwyr y cyngor.

Mae cais a dderbyniwyd gan Glwb Bocsio Bwcle wedi'i wrthod ar y sail fod gan y clwb incwm a chyfalaf digonol i dalu eu hardrethi busnes o 20%.

- **Ardrethi Busnes – Cais am Ryddhad Caledi**
  Mae Adran 49 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn rhoi hawl i'r Cyngor ddefnyddio ei ddoethineb i ostwng neu ddileu ardrethi busnes os yw'n fodlon y byddai'r talwr ardrethi yn wynebu caledi pe na bai'n gwneud hynny ac os yw'n rhesymol iddo wneud hynny o ystyried buddiannau trethdalwyr y cyngor.

  Mae cais a dderbyniwyd gan Jump 2 It Deeside Ltd. wedi cael ei wrthod ar y sail na thybir y byddai cefnogi dyfarniad o Ryddhad Ardrethi ar Sail Caledi o fudd i'r cyhoedd ehangach.

- **Ardrethi Busnes – Cais am Ryddhad Caledi**
  Mae Adran 49 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn rhoi hawl i'r Cyngor ddefnyddio ei ddoethineb i ostwng neu ddileu ardrethi busnes os yw'n fodlon y byddai'r talwr ardrethi yn wynebu caledi pe na bai'n gwneud hynny ac os yw'n rhesymol iddo wneud hynny o ystyried buddiannau trethdalwyr y cyngor.

  Mae cais a dderbyniwyd gan Grŵp Sgowtiaid Mynydd Isa wedi'i wrthod ar y sail fod gan y clwb incwm a chyfalaf digonol i dalu eu hardrethi busnes o 20%.

- **Ardrethi Busnes – Cais am Ryddhad Caledi**
  Mae Adran 49 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn rhoi hawl i'r Cyngor ddefnyddio ei ddoethineb i ostwng neu ddileu ardrethi busnes os yw'n fodlon y byddai'r talwr ardrethi yn wynebu caledi pe na bai'n gwneud hynny ac os yw'n rhesymol iddo wneud hynny o ystyried buddiannau trethdalwyr y cyngor.

  Mae cais a dderbyniwyd gan elusen gofrestredig 'SHARE' (Supporting Homeless Assisting Refugees Everywhere) wedi cael ei wrthod ar y sail na thybir y byddai cefnogi dyfarniad o Ryddhad Ardrethi ar Sail Caledi o fudd i'r cyhoedd ehangach.

- **Gwasanaeth Cofrestru Sir y Fflint**
  Ar ôl cyhoeddi adroddiad "Adolygu Ffioedd a Thaliadau Cyngor Sir y Fflint" gan Deloitte's ym mis Rhagfyr 2016, mae adolygiad o ffioedd cofrestru anstatudol wedi'i gynnal i fanteisio ar y cyfleoedd a amlygir yn yr adroddiad. Mae'r Prif Swyddog (Cymuned a Menter) wedi dirprwyo pwerau i osod y ffioedd anstatudol.

- **Llety Ar Brydles – Cynllun Adleoli Unigolion Sy'n Agored i Niwed o Syria**
  Arwyddo cytundebau prydles y sector preifat i ddarparu hyd at bump o gartrefi i deuluoedd er mwyn galluogi'r Awdurdod Lleol i gymryd rhan yn y Cynllun Adleoli Unigolion sy'n Agored i Niwed o Syria.

<u>Cyfreithiol</u>

- **Ffioedd ac Ad-daliadau Cyfreithiol 2017**
  Mae tîm cyfreithiol y Cyngor yn adfer costau ymgymryd â gwaith cyfreithiol penodol megis gwerthu tir a pharatoi cytundebau A.106 gan drydydd partïon (y

prynwr, datblygwr ac ati). Yn dilyn ymarfer meincnodi yn erbyn yr awdurdodau cyhoeddus eraill yng Nghymru, mae ffioedd wedi codi mymryn. Mae’r Cyngor hefyd wedi adolygu’r tâl fesul awr ar gyfer ei dîm cyfreithiol i adlewyrchu cyfraddau presennol y farchnad. Rhagwelir y bydd hyn yn codi lefelau incwm o £60,000 (yn 2015/16) i £75,000 (yn ystod 2017/18).

- **Strwythur Staffio Cyfreithiol mis Gorffennaf 2017**
  Cytunodd y Cabinet ar strwythur staffio’r Gwasanaethau Cyfreithiol ym mis Mehefin 2016 a oedd yn cynnwys nifer o swyddi newydd. Mae’r swyddi hynny wedi cael eu hysbysebu ond heb eu llenwi eto. Trwy ailddosbarthu gwaith o fewn y tîm bydd modd newid lefelau cymhwyster ar gyfer y swyddi gwag i’w gwneud yn fwy deniadol i ymgeiswyr. Mae’r newidiadau arfaethedig yn niwtral o ran cost ac yn gwella cynhwysedd a gwytnwch mewn meysydd a nodwyd fel rhai gwan ac i ddiwallu'r cynnydd disgwyliedig mewn galw.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi’r camau a gymerwyd o dan bwerau dirprwyedig.

## 61. AELODAU O’R WASG A’R CYHOEDD YN BRESENNOL

Roedd dau aelod o’r cyhoedd ac un aelod o’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 9.30am a daeth i ben am 12.17pm.)

**…………………………..**
**Y Cadeirydd**